Cytundeb Iechyd Gogledd Cymru a'r Trydydd Sector

"Cyd-weithio'n lleol ar gyfer iechyd a lles bobl Gogledd Cymru"

Y Partneriaid

Lluniwyd y 'Cytundeb' hwn rhwng y chwe Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac mae'r swyddogion sy'n gyfrifol yn y sefydliadau perthnasol wedi cytuno arno.

Sefydliadau Partner	Swyddog sy'n Gyfrifol	Llofnod:
Medrwn Môn, Ynys Môn	John R Jones	
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy	Wendy Jones	
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	John Watkin	
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint	Kieran Duff	
Mantell Gwynedd	Bethan Russell Williams	
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol yn Wrecsam	John Gallanders	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bet Cadwaladr	Mary Burrows	

Dyddiad Cytuno:		Dyddiad Adolygu:	

Cynnwys

Cyfeirnod	Cynnwys	Rhif Tudalen(nau)
1	**Crynodeb Gweithredol**	4
2	**Cefndir**	4 & 5
3	**Gweledigaeth ac egwyddorion a rennir**	5
3.1	Cryfhau partneriaeth	5 & 6
3.2	Gwella cynllunio gwasanaeth, darpariaeth ac adnoddau	6
3.3	Cefnogi hunanofal ac annibyniaeth	6
3.4	Gwella mynediad at wasanaethau i gymunedau penodol	6 & 7
3.5	Hybu a gwella iechyd a lles	7
3.6	Gwirfoddoli dros iechyd a gofal cymdeithasol	7
3.7	Datblygu mentrau cymdeithasol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol	7
3.8	Cynllunio gwasanaethau a gweithlu integredig	7
3.9	Lleihau nifer y derbyniadau i ysbytai a gwella'r drefn ryddhau	7 & 8
3.10	Ymchwil a Datblygiad	8
4	**Cyfrifoldebau bob partner**	8
5	**Gweithredu, Monitro ac Adolygu**	8

1. Crynodeb Gweithredol

Yn y Cytundeb hwn, mae'r term 'Trydydd Sector' yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a buddiannau gwirfoddoli. Mae'r Term BIPBC yn golygu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn berthnasol i Ogledd Cymru.

Mae'r egwyddorion yn y Cytundeb hwn yn fframwaith ar gyfer cyd-weithio mwy effeithiol tuag at nodau cyffredin er lles unigolion a chymunedau yn y boblogaeth leol ar hyd a lled Gogledd Cymru. Y nod yn gyffredinol ydy gwella iechyd a lles pobl Gogledd Cymru.

Lluniwyd y 'Cytundeb' hwn rhwng y chwe Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Rydym wedi ymrwymo i weithredu egwyddorion sydd wedi'u seilio ar y 10 thema ganlynol yn y "Cynllun i Ychwanegu Gwerth - Trydydd Dimensiwn":

- Cryfhau gwaith partneriaeth yn y trydydd sector a rhwng y sectorau
- Gwella cynllunio gwasanaeth, darpariaeth ac adnoddau
- Cefnogi hunanofal ac annibyniaeth
- Gwella mynediad at wasanaethau ar gyfer cymunedau penodol
- Hybu a gwella iechyd a lles
- Gwirfoddoli dros iechyd a gofal cymdeithasol
- Datblygu mentrau cymdeithasol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- Cynllunio gwasanaethau a gweithlu integredig
- Lleihau nifer y derbyniadau i ysbytai a gwella'r drefn ryddhau
- Ymchwil a Datblygiad

Datblygwyd y 'Cytundeb' hwn ar sail yr arfer da a geir yn y trefniadau Cytundeb Sirol sy'n bodoli'n lleol ar hyd a lled Gogledd Cymru. Mae'n cynrychioli ymrwymiad y partneriaid i annog y Trydydd Sector a BIPBC i weithio mewn partneriaeth yn lleol ac ar lefel ranbarthol ac mae'n cyfleu ein dealltwriaeth a'n cydnabyddiaeth o'n rôl o safbwynt gwerth, parch a chyfreithlondeb. Yn sicr byddwn yn cyflawni mwy drwy bartneriaeth a chydweithio na thrwy weithio ar wahân. Mae gennym berthynas dda, ac felly ar continwwm, rydym yn anelu at bartneriaethau effeithiol.

Bydd effeithiolrwydd y cytundeb hwn yn cael ei fesur yn ôl faint o barch a roddir iddo a faint ohono fydd yn cael ei roi ar waith gan bob un o'r partneriaid. I sicrhau ein bod yn llwyddo i gael newid adeiladol a gwelliannau, bydd "Cod Ymarfer Ariannu" yn cynnwys Cytundeb Lefel Gwasanaeth a thempledi monitro hefyd yn cael eu datblygu mewn partneriaeth fel bod yr egwyddorion wedi'u gwreiddio'n eang ar draws yr holl bartneriaethau, gan hybu gwasanaethau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, yn ateb y diben ac yn rhoi gwerth am arian.

2. Cefndir

Yn sgil cyhoeddiad y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddiwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, diddymwyd y 22 Bwrdd Iechyd Lleol a'r 7 Ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd 7 Bwrdd Iechyd Lleol yn eu lle o 1 Hydref 2009.

Wrth i'r GIG yng Nghymru symud oddi wrth ddarparu gwasanaethau yn ôl modelau traddodiadol, mae'n gyfle i adolygu trefniadau presennol, adeiladu ar gryfderau'r Trydydd Sector a bod yn fwy cynaliadwy, hyblyg a mentrus, ac ymateb i anghenion newydd y boblogaeth.

Yn ein nod i wella Iechyd a Lles y boblogaeth, mae cydbwysedd y ddarpariaeth yn newid a bydd gwasanaethau craidd yn cael eu darparu'n nes at y cartref, mewn cymunedau a'r tu allan i'r ysbyty. Bydd hyn yn hybu atal ac ymyriad cynnar gan olygu fod pobl a chymunedau ar draws Cymru yn fwy annibynnol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a BIPBC yn cydnabod fod y Trydydd Sector yn bartner allweddol i wneud y newid hwn. Gall Sefydliadau'r Trydydd Sector gefnogi BIPBC i atal afiechyd; symud gwasanaethau yn nes at lle mae pobl yn byw, cynnwys pobl wrth gynllunio a darparu gofal drwy ymgysylltu â gwirfoddolwyr a chymunedau penodol, a chefnogi pobl i gyrraedd eu potensial drwy eiriolaeth, cyngor, cefnogaeth a hunanofal.

Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ei hadroddiad 'Gofal gydag urddas?'

> *Dylai Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth gydnabod arbenigedd y trydydd sector a gweithio gyda nhw i wireddu'r potensial sy'n gysylltiedig â defnyddio gwirfoddolwyr mewn ffordd briodola chreadigol. Gyda rheolaeth broffesiynol, proses sefydlu dda a chymorth ar lefel ward, gall defnyddio gwirfoddolwyr fod yn fanteisiol iawn. Mae'n faes lle y gall symiau cymharol fach o wariant arwain at fuddiannau sy'n werth llawer mwy na'r arian a fuddsoddwyd.*

3. Rhannu Gwerthoedd ac Egwyddorion

Yn y Cytundeb hwn mae'r holl bartneriaid wedi ymrwymo i fabwysiadu'r egwyddorion sydd wedi'u seilio ar y 10 thema ganlynol yn "Cynllun i Ychwanegu Gwerth - Trydydd Dimensiwn":

3.1 Cryfhau gwaith partneriaeth yn y trydydd sector a rhwng y sectorau

Holl bwrpas partneriaeth ydy rhannu creadigrwydd, risg a chyfrifoldeb a symleiddio tasgau a sicrhau fod y rhai mwyaf addas yn eu cyflawni.

Er mwyn ychwanegu at y cydweithio, bydd partneriaid yn:

- Hybu partneriaeth agored a gonest rhwng y cyhoedd, y sector preifat a'r trydydd sector er budd pawb, sy'n ddynamig ac yn arwain at ganlyniadau cytunedig yn unol â blaenoriaethau strategol.
- Sicrhau fod egwyddorion partneriaeth yn cael eu derbyn a'u gweithredu ar bob lefel ym mhob asiantaeth partner

- Ceisio darparu ystod o wasanaethau o'r ansawdd gorau a sicrhau dewis ar draws Gogledd Cymru
- Lle bynnag fo'n bosib, trefnu ymgynghoriad buan ar faterion sy'n effeithio ar bartneriaid a rhoi amser digonol ar gyfer ymateb
- Darparu cyfleoedd i'r partneriaid gyfrannu at adolygu polisi a datblygu a gweithredu strategaethau gwasanaeth.
- Cefnogi gwell cyfathrebu rhwng ein gilydd, efo'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau lleol.
- Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i sicrhau arfer gorau wrth ddatblygu trefniadau comisiynu a chontractio.
- Cynhyrchu a rhannu cyngor a gwybodaeth reolaidd, glir a chyson ar flaenoriaethau strategol lefel uchel a gofynion gwasanaeth a chyfleoedd ariannu mewnol ac allanol cysylltiedig.
- Sicrhau fod ariannu wedi'i dargedu'n iawn i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf, sy'n gost-effeithiol ac yn ateb anghenion y gymuned
- Cydweithio er mwyn adnabod ffynonellau eraill o ariannu ar gyfer y Trydydd Sector sy'n ychwanegu gwerth at waith y Partneriaid.
- Ceisio datblygu system ariannu, yn y cynni ariannol presennol, sy'n cymryd ystyriaeth o'r broblem ariannu tymor byr fydd yn arwain at fwy o sefydlogrwydd tymor hir

3.2 Gwella cynllunio gwasanaeth, darpariaeth ac adnoddau

Mae'r partneriaid yn cytuno i gynllunio a darparu ar y cyd a fydd yn:

- Cefnogi datblygu prosesau a strwythurau effeithiol i alluogi partneriaid gysylltu ar lefel strategol i gynllunio a darparu gwasanaethau
- Annog arfer gorau ac agwedd gyson at reoli perfformiad, yn arbennig lle bo sefydliadau yn derbyn arian fel darparwyr gwasanaeth
- Sicrhau cyfuno ac integreiddio strategaethau lleol a rhanbarthol eraill, partneriaethau a blaenoriaethau e.e.
    - Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
    - Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc
    - Partneriaethau Diogelwch yn y Gymuned
    - Byrddau Gwasanaeth Lleol
    - Strategaethau Cymuned
    - Grwpiau Rhaglen Glinigol BIPBC
    - Fframwaith Ansawdd Blynyddol BIPBC – yn cynnwys Ein Dyfodol Iach - agenda Atal
    - Datblygu ardaloedd lleol BIPBC
- Cymryd rhan mewn monitro a gwerthuso gwaith partneriaeth sydd wedi'i gytuno
- Darparu cyfeirlyfr gwybodaeth ar sefydliadau'r Trydydd Sector sy'n gweithredu yn ardaloedd lleol Gogledd Cymru
- Sicrhau fod cyfiawnhad dros wasanaethau, gwerth am arian a darparu canlyniadau
- Sicrhau cyfathrebu cyson o ansawdd da a rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.
- Hybu Cynaladwyedd Amgylcheddol, Cymdeithasol, Economaidd a Diwylliannol

3.3 Cefnogi hunanofal ac annibyniaeth

Bydd partneriaid yn:

- Annog pobl i gymryd cyfrifoldeb dros benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a hybu annibyniaeth (cynhwysiad cymdeithasol) fel bo unigolion yn weithgar yn eu cymunedau.
- Adnabod a hybu Mentrau Cenedlaethol a lleol a meysydd arfer da e.e. Rhaglen Cleifion Arbenigol

3.4 Gwella mynediad at wasanaethau ar gyfer cymunedau penodol

Mae partneriaid wedi ymrwymo i sicrhau tegwch o ran mynediad at wasanaethau a byddent:

- Yn hybu cyfle cyfartal yn gyffredinol heb wahaniaethu ac yn arbennig o ran oedran, anabledd, rhyw, tueddfryd rhywiol, crefydd a hil.
- Hyrwyddo statws cyfartal i'r Gymraeg
- Ystyried ardaloedd gwledig wrth gynllunio gwasanaethau yn unol â Chynllunio Iechyd Gwledig Cymru (2009)
- Gweithio efo sefydliadau eraill i gynnig dulliau o ddarparu gwasanaethau i grwpiau cleient/cymunedau penodol

3.5 Hybu a gwella iechyd a lles

- Datblygu partneriaeth strategol effeithiol i hybu iechyd a lles poblogaethau lleol ar draws Gogledd Cymru
- Annog gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael ag anghenion cymuned a datblygu gwasanaethau
- Hybu agenda atal iechyd lleol a chenedlaethol, er enghraifft Her Iechyd Cymru a'r mentrau Her Iechyd Sirol penodol.

3.6 Gwirfoddoli dros iechyd a gofal cymdeithasol

Rhannu gweledigaeth ynghylch sut y gall partneriaid gefnogi a hybu gwaith gwirfoddol, wrth barchu annibyniaeth y gwirfoddolwyr a'u rhyddid i ddewis. Yn arbennig bydd y partneriaid yn:

- Hyrwyddo egwyddorion arfer gorau yn eu sefydliadau ynglŷn â'r defnydd o wirfoddolwyr
- Hyrwyddo gweithgaredd gwirfoddoli ymysg gweithlu asiantaethau partner er lles y gymuned
- Hyrwyddo mabwysiadu arfer gorau gan sefydliadau'r Trydydd Sector o ran rheoli, cyflogi a gweithio efo gwirfoddolwyr
- Annog a datblygu gweithlu proffesiynol a hybu cydweithio rhwng staff cyflogedig a staff gwirfoddol
- Datblygu cyfleoedd newydd i wirfoddolwyr gysylltu â meysydd gwasanaeth BIPBC
- Cefnogi cynlluniau gwirfoddol sy'n bodoli'n barod yn BIPBC e.e. Robins

3.7 Datblygu mentrau cymdeithasol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

- Coleddu diwylliant Menter Cymdeithasol a gwreiddio'r egwyddorion yng ngwaith BIPBC yn unol â Strategaeth bresennol Llywodraeth Cymru.

- Cynghorau Gwirfoddol Sirol i ddarparu cefnogaeth i sefydliadau ac unigolion sy'n datblygu Mentrau Cymdeithasol i ddarparu meysydd gwasanaeth

3.8 Cynllunio gwasanaethau a gweithlu integredig

Bydd yr holl bartneriaid :

- yn edrych ar gyfleoedd i weithio ar y cyd a hyrwyddo gweithio ar y cyd lle bo hynny'n addas
- yn darparu lle bo'n bosib, cefnogaeth nad yw'n ariannol fel bo'n addas e.e. llety, cefnogaeth staff, hyfforddiant ayyb
- yn cydnabod y budd o rannu adnoddau a gwneud y gorau o gyfleoedd sy'n deillio o gydweithio
- wedi ymrwymo i werth hyfforddi a datblygu staff a byddent yn ceisio llunio, comisiynu a darparu rhaglenni hyfforddiant ar y cyd

3.9 Lleihau nifer y derbyniadau i ysbytai a gwella'r drefn ryddhau

Bydd partneriaid:

- yn edrych am enghreifftiau o arfer da o ran osgoi ail-dderbyniad i ysbyty a rhyddhau cynnar
- Gweithio ar y cyd i ddatblygu mentrau sy'n hwyluso rhyddhau cynnar o'r ysbyty

3.10 Ymchwil a Datblygiad

- Annog pobl i gymryd rhan mewn cyfleoedd ymchwil a datblygiad
- Hyrwyddo cysylltiadau a chydweithio â Phrifysgolion o ran yr agenda iechyd ataliol a dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddarpariaeth iechyd a lles

4. Cyfrifoldebau bob partner

Bydd pob partner yn arfer ei gyfrifoldebau drwy sicrhau:

- strwythurau clir a rolau pendant gyda nodau ac amcanion penodol
- gweithredu o fewn amodau eu nodau a'u hamcanion
- yn atebol fel bo'n addas i'w haelodau, eu cleientiaid, y cymunedau lle maen nhw'n gweithio, y cyhoedd, y cyrff ariannu sy'n cefnogi eu gwaith a'r cyrff rheoli sy'n goruchwylio eu gweithgareddau.
- Asesu effaith tebygol unrhyw newidiadau polisi ar bartneriaid eraill, drwy ymgynghori â'r partneriaid hynny
- polisïau cyflogaeth effeithiol, trefniadau rheoli a gweithdrefnau rheoli ansawdd priodol
- trefniadau llywodraethu cadarn, yn cynnwys rheoli risg ayyb i sicrhau cydymffurfiad â'r holl ddeddfwriaeth angenrheidiol
- Sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol e.e. Deddf Cydraddoldeb,

5. Gweithredu, Monitro ac Adolygu

Bydd 'Cod Ymarfer Ariannu' yn cynnwys Cytundebau Lefel Gwasanaeth a thempledi monitro yn cael eu datblygu mewn partneriaeth i wneud y Cytundeb yn gyflawn. Nod y Cod Ymarfer Ariannu atodol fydd darparu arweiniad, hybu cysondeb ac osgoi dyblygu ac ychwanegu at lwyth gweinyddol sefydliadau'r trydydd sector.

Bydd gweithredu ac effeithiolrwydd y 'Cytundeb' a'r 'Cod Ymarfer Ariannu' ychwanegol yn cael ei fonitro a'i adolygu'n lleol gan Grŵp Cytundeb Gogledd Cymru.

Bydd aelodaeth y grŵp yn cynnwys:

- 3 cynrychiolydd Cyngor Gwirfoddoli Sirol
- 3 cynrychiolydd BIPBC

Bydd y grŵp yn cyfarfod unwaith y flwyddyn a'i gylch gwaith fydd:

- Cadw at y Cytundeb
- Ystyried adroddiad adolygu blynyddol ac adroddiad monitro contract
- Trafod cyllidebau o ran cyfleoedd/toriadau ariannol yn y dyfodol
- Trafodaethau yn ymwneud â sefydliad trydydd sector sy'n gweithredu y tu allan i ffiniau ei gontract

6. Mynegi Pryderon

Lle bo sefydliadau yn credu nad yw amodau neu ysbryd y Cytundeb hwn wedi cael eu cadw, gallent fynegi pryder yn ffurfiol neu'n anffurfiol yn unigol neu ar y cyd. Gall sefydliad ambarél, fforwm neu rwydwaith hefyd fynegi pryderon ar ran un neu fwy o'i aelodau.

Yn y lle cyntaf dylid mynegi pryderon drwy:

Prif Swyddogion y 6 Cyngor Gwirfoddoli Sirol Gogledd Cymru
(fel bo'n addas)
a

Cyfarwyddwr Datblygu Partneriaethau Cymuned Cynorthwyol -
BIPBC

Lle na all y swyddogion uchod ddelio'n foddhaol â'r pryder,
gofynnir i Grŵp Cytundeb Gogledd Cymru ei ystyried.